# PWYLLGOR CRAFFU'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **19 Medi 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd C.Galsworthy** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd H.C.Clarke** |
| **Cynghorwyr**: | H.Davies, O.S.Davies, S.E.Freeguard, J.Jones, A.R.Lockyer, P.D.Richards, D.Whitelock a/ac C.Williams |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | R.Davies, C.Howard, A.Thomas, S.Coe, V.Smith, M.Potts, C.Griffiths, S.Griffiths a/ac P.Griffiths |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.Llewelyn, S.Harris a/ac J.Hale |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2024 fel cofnod cywir.

4. **YSTYRIED EITEMAU O FLAENRAGLEN WAITH Y CYNGOR**

Trafododd yr Aelodau eitemau o Flaenraglen Waith y Cabinet

(a) Arfarniad Opsiynau Grant Cyfleusterau i'r Anabl

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad manwl a diddorol.

Rhoddodd y Pennaeth Tai a Chymunedau drosolwg i'r aelodau o'r adroddiad a gynhwysir yn y pecyn agenda.

Rhoddodd swyddogion wybodaeth ychwanegol i'r aelodau nad oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad. Mae'r newid i elfen ddisgresiynol y grant wedi sbarduno newid mewn ymddygiad gyda chynnydd mewn ceisiadau am lifftiau fertigol oherwydd y gost is o'i gymharu ag estyniadau. Fodd bynnag, nid yw'r ymagwedd hon yn darparu ateb hirdymor priodol.

Cododd y Cadeirydd bryder ynghylch risgiau diogelwch posib i rai preswylwyr sy'n defnyddio lifftiau fertigol.

Gofynnodd yr aelodau sut y cymhwyswyd taliadau eiddo oes ar gyfer tai cymdeithasol .

Cadarnhaodd swyddogion y byddai cyllid disgresiynol ar gael i eiddo preifat ac eiddo a rentir yn breifat yn unig. Roedd yn debygol y byddai unrhyw gyllid disgresiynol yn cael ei ad-dalu ar ryw adeg o eiddo preifat neu eiddo a rentir yn breifat, ond nid oedd hyn yn berthnasol i dai cymdeithasol.

Holodd yr Aelodau a oedd yn ofynnol i landlordiaid preifat gydlofnodi unrhyw gytundeb cyllido.

Cadarnhaodd swyddogion fod yn rhaid rhoi caniatâd landlord cyn y gellir gwneud unrhyw waith ar eiddo a rentir yn breifat a bod landlordiaid yn ymwybodol o'r amodau cyllido.

Gofynnodd yr aelodau a oedd cleifion ysbyty a oedd yn aros am addasiadau i eiddo yn cael eu blaenoriaethu ac a oedd y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu'n ariannol.

Cadarnhaodd swyddogion nad yw'r Grant Rhyddhau o'r Ysbyty a oedd ar gael yn flaenorol yn cael ei gynnig bellach a bod yn rhaid i

Therapyddion Galwedigaethol flaenoriaethu angen. Lle nodir angen blaenoriaethol, byddai'r cais yn cael ei symud cyn belled ag y bo modd ar y rhestr aros, yn dibynnu ar gyflwr presennol y gwariant. Nodwyd bod ymrwymiadau eisoes ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf.

Holodd yr aelodau a oes angen mwy o arian oddi wrth y bwrdd iechyd a holwyd pam nad yw'r Grant Cyllido Rhyddhau o'r Ysbyty ar gael mwyach.

Cadarnhaodd swyddogion fod ymdrechion wedi'u gwneud i gael arian ychwanegol gan y bwrdd iechyd, ond ni chafwyd unrhyw arian. Bu newid i Grantiau Bae'r Gorllewin, ac ataliwyd cymeradwyaeth. Nodwyd bod llawer o bobl ar y rhestr aros yn cael yr un flaenoriaeth a bod anawsterau o ran blaenoriaethu gan fod yr adnoddau sydd ar gael yn brin. Mewn rhai achosion, cyflwynodd Therapyddion Galwedigaethol ddarnau o waith â blaenoriaeth gyda gweddill y gwaith yn cael ei wneud yn ddiweddarach.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion sicrwydd na fyddai cleifion ysbyty sy'n aros am addasiadau yn aros yn yr ysbyty am gyfnodau estynedig ond y byddent yn cael eu symud i leoliad gofal estynedig mewn gwely preswyl, gyda'r Cyngor yn talu'r.

Holodd yr aelodau, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, pa mor gyflym y byddai'r ôl-groniad presennol yn clirio.

Cadarnhaodd swyddogion pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo hyn y byddai angen newidiadau i'r offer polisi a'r ddogfen gyfreithiol, gyda'r nod o roi'r newid ar waith erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Ar hyn o bryd mae 274 ar y rhestr aros ond rhagwelir y bydd rhai pobl yn gadael y rhestr os ailgyflwynwyd profion modd. Bydd pobl ar y rhestr aros yn cael eu hysbysu os caiff profion modd eu hailgyflwyno.

Gofynnodd yr Aelodau am weld copi o'r prawf modd ac awgrymwyd y dylai'r Cyngor gael rhai pwerau disgresiwn.

Dywedodd swyddogion wrth yr aelodau na fyddai disgresiwn dros grantiau mawr lle mae profion modd ar waith. Nodwyd bod y grantiau bach/canolig wedi'u tynnu allan i greu grant disgresiynol newydd ac mae pwerau disgresiwn wedi'u defnyddio fel nad oes angen prawf modd ar eu cyfer.

Croesawyd system prawf modd gan yr aelodau. Gofynnodd yr aelodau a fyddai unrhyw ddiffyg ariannol yn cael ei adfachu o

Lywodraeth Cymru ac a allai Bae'r Gorllewin fynd i gyfarfod pwyllgor i roi eglurder ynghylch grantiau.

Cadarnhaodd y Pennaeth Tai a Chymunedau fod Llywodraeth Cymru wedi darparu gwerth £90,000 o gyllid ychwanegol i helpu gyda'r galw cynyddol yn sgîl dileu'r prawf modd, a bydd rhywfaint o gyllid hefyd ar gael gan Fae'r Gorllewin mewn perthynas â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Bu newid mewn perthynas ag arian cyfalaf sydd wedi effeithio ar faint o arian sydd ar gael i'w ddefnyddio tuag at Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae Grŵp Cyfalaf Gorllewin Morgannwg yn siarad â Llywodraeth Cymru ynghylch y gallu i ddefnyddio mwy o'r arian y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu o dan y grantiau hyn ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai y gellir gwahodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg i gyfarfod pwyllgor craffu yn y dyfodol. Atgoffodd y Cyfarwyddwr yr aelodau fod Arweinydd y Cyngor yn cadeirio'r bwrdd, a bod y cyfarwyddwr hefyd yn aelod o'r bwrdd. Ailadroddodd y cyfarwyddwr y newid i gyllid rhanbarthol sy'n dod drwy'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol; mae mwy o ffocws ar drawsnewid a defnyddio arian cyfalaf i gefnogi rhaglenni trawsnewid. Mae hyn wedi effeithio ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mewn blynyddoedd blaenorol mae peth tanwariant yn y flwyddyn wedi mynd tuag at Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

Gofynnodd yr aelodau am eglurder ynghylch faint y gall Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg ei roi i'r Cyngor ar gyfer grantiau, a gofynnwyd am ragor o wybodaeth mewn perthynas â chyllid Llywodraeth Cymru o £90,000 a'r diffyg o £1m+ a grybwyllir yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd swyddogion fod y swm o £90,000 wedi'i gyfrifo gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oedd y ffigwr yn ystyried faint o bobl a oedd wedi canslo neu nad oeddent wedi cyflwyno cais oherwydd y prawf modd.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai nad oedd y Cyngor yn ariannu £1m ychwanegol; mae'r diffyg profion modd presennol wedi arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau. Pe bai pob cais yn cael ei gyflawni, byddai'n arwain at £1m o wariant ychwanegol dros gyllid Llywodraeth Cymru.

Holodd yr Aelodau ynghylch yr amserlen ar gyfer ailgyflwyno profion modd.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai y byddai angen ymgynghoriad a newid polisi cyn y gellid gwneud unrhyw newid. Y gobaith yw y gallai trefniadau fod ar waith ac yn cael eu cyflwyno erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Nodwyd efallai na fydd Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r newid, ond roedd swyddogion o'r farn ei fod yn gam angenrheidiol i sicrhau bod y rheini â'r angen mwyaf yn cael mynediad at y gwasanaethau gofynnol.

Holodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd sut mae cost lifftiau fertigol yn cymharu â lifftiau grisiau.

Cadarnhaodd swyddogion fod lifftiau fertigol yn ddrytach na lifftiau grisiau ac y gallent gostio tua £20,000.

Yn dilyn gwaith craffu, cefnogodd yr aelodau'r argymhelliad a amlinellwyd yn adroddiad drafft y Cabinet.

## 5. YSTYRIED EITEMAU O FLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU

Nid oedd unrhyw eitemau wedi'u dewis o'r Flaenraglen Waith Craffu.

## 6. MONITRO PERFFORMIAD

Dywedodd y Cadeirydd wrth y pwyllgor fod adroddiadau perfformiad Chwarter 1 a Chwarter 2 wedi'u hychwanegu at y flaenraglen waith ar gyfer 12 Rhagfyr, gydag adroddiadau perfformiad chwarterol yn cael eu derbyn ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Nid oedd adroddiadau monitro perfformiad i'w hystyried.

## 7. DETHOLIADAU O EITEMAU I GRAFFU ARNYNT YN Y DYFODOL

Hysbyswyd yr aelodau gan swyddogion o eitemau newydd a oedd wedi cael eu hychwanegu at Flaenraglen Waith y Cabinet a newidiadau i Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn am eitemau pellach i'w hystyried.

Atgoffodd y Cadeirydd swyddogion o'r angen am ddisgrifiad o bwrpas yr adroddiad ar Flaenraglen Waith y Cabinet i gynorthwyo aelodau craffu wrth ddewis eitemau i graffu arnynt.

Nododd yr Aelodau'r Flaenraglen Waith.

8. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

9. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Penderfynwyd: bod aelodau'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r eitem(au) ganlynol/canlynol yn unol ag Adran 100a (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

10. **CRAFFU AR EITEMAU PREIFAT**

Ystyriodd yr aelodau'r eitem breifat.

11. **ACHOS BUSNES CYCHWYNNOL AR GYFER DATBLYGU CANOLFAN FRYSBENNU (WEDI'I HEITHRIO O DAN BARAGRAFF 14)**

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad i fynd gerbron y Cabinet.

**Cynghorydd C.Galsworthy**
**CADEIRYDD**